



Barod? Ewch Anerchiad y Pentecost

Cyn hir fe fyddwn ni'n dod at gyfnod mabolgampau'r ysgol, a'r cyfnod hefyd y byddwn yn gwylio athletau ar y teledu. Bob pedair blynedd fe gawn ni'r wefr o wyllo'r gemau Olympaidd a rhyfeddu at gyflymder rhai o redwyr cyflymaf y byd. Mae un math o ras yn gofyn nid yn unig cyflymder, ond cyd-ddealltwriaeth rhwng aelodau'r tîm, a honno ydy'r ras gyfnewid. Bydd un aelod o'r tîm yn rhedeg gyda'r baton ac yna'n ei throsglwyddo'n ddeheuig o fewn pellter penodedig i'r rhedwr nesaf a hynny heb ollwng y baton na cholli cyflymdra. Mae'r cyfnod rhwng y Pasg a'r Pentecost yn debyg i ras gyfnewid. Mae'r Arglwydd Iesu wedi bod yn cyflawni gwaith Duw o alw pobl i edifarhau, i feithrin disgyblion ac iacháu cleifion, a nawr wedi iddo ymddangos iddyn nhw nifer o weithiau wedi'r atgyfodiad, mae e'n dweud – 'eich tro chi nawr - ewch i wneud y pethau 'da chi wedi fy ngweld i yn eu gwneud', ac yna mae e'n diflannu o'u golwg.

Rhoddodd yr Arglwydd Iesu dasgau i'w ddisgyblion cyntaf, a dyma'r tasgau i'w ddisgyblion ym mhob oes. Pregeth gyntaf Iesu ar ddechrau ei weinidogaeth oedd" Edifarhewch a chredwch yr Efengyl" Y dasg gyntaf, a gofnodir ar ddiwedd Efengyl Luc yw, i barhau i gyhoeddi'r neges honno.

'Rhaid cyhoeddi'r neges yma yn Jerwsalem a thrwy'r gwledydd i gyd: fod pobl i droi cefn ar eu pechod a bod Duw'n barod i faddau iddyn nhw.' (Luc 24:47)

Un o'r pethau cyntaf wnaeth Iesu ar ddechrau ei weinidogaeth oedd galw disgyblion. Ar ddiwedd Efengyl Mathew, mae Iesu'n rhoi'r dasg i'r disgyblion yna i wneud mwy o ddisgyblion. 'ewch i wneud pobl o bob gwlad yn ddisgyblion i mi, a'u bedyddio nhw fel arwydd eu bod nhw wedi dod i berthynas â'r Tad, a'r Mab a'r Ysbryd Glân . A dysgwch nhw i wneud popeth dw i wedi'i ddweud wrthoch chi' (Mathew 28 19,20)

Drwy gydol ei weinidogaeth, roedd Iesu'n tynnu pobl at ei gilydd ac adfer perthynas rhyngddynt, yn croesawu plant ac yn estyn ei law i gyffwrdd ac iacháu'r cleifion a'r anghenus. Ar ddiwedd Efengyl Ioan, mae Iesu'n sgwrsio gyda Pedr, yn adfer y berthynas o gariad rhyngddynt ac yn ymddiried y dasg o arwain a bugeilio iddo fe ac i'r Eglwys. 'Gofala am fy wŷn', 'Arwain fy nefaid', 'Gofala am fy nefaid' Fel ei ddisgyblion heddiw, rydym wedi etifeddu'r gwaith yma.

Ydych chi'n barod?

Rydym yn gwybod beth yw'r tasgau mae Iesu wedi eu rhoi i ni, ond y cwestiwn yw, ydyn ni'n barod? Ydyn ni wedi dechrau rhedeg gyda Iesu, ydyn ein llaw ni allan yn barod i gymryd y baton a rhedeg y ras?

Mae bod yn barod yn y lle cyntaf yn gorfod golygu ymroi i bethau ein hunain. Os ydym i helpu eraill i fod yn ddisgyblion, mae angen i ni ymroi o'r newydd i fod yn ddisgyblion ein hunain. Mae ffitrwydd ysbrydol, fel ffitrwydd corfforol yn gwella gydag ymarfer.

Yn ail, mae angen i ni newid ein ffordd o feddwl fel eglwysi. Rhaid dechrau edrych allan yn lle edrych i mewn arnom ein hunain. Os ydym yn canolbwyntio ar ein hanghenion ni o fewn yr eglwys ac yn dal at y pethau sy'n ein plesio ni, dydy hynny ddim yn arwydd o fod yn barod ac yn awyddus i dderbyn pobl newydd.

Yn drydydd, mae bod yn barod yn golygu parodrwydd i fentro ac arbrofi. Fedrwn ni ddim cael ein dal yn ôl gan agweddau fel 'os oedd yn ddigon da i'n tadau a'n mamau, mae'n ddigon da i ni'. Mae cyfnod newydd yn gofyn am ddulliau newydd.

Ond efallai mai'r ffordd bwysicaf o fod yn barod yw sylweddoli nad arnom ni mae llwyddiant y gwaith yn dibynnu o gwbl. Neges bwysicaf y Pentecost yw bod Duw am fod ar waith drwom ni os ydym yn fodlon agor ein calonau a'n bywydau iddo mewn gweddi.

Ar bobl weddigar, ddisgwylgar am yr hyn roedd Duw am ei wneud nesaf y disgynnodd yr Ysbryd Glân ar y Pentecost. Gadewch i ni ofyn i Dduw fel unigolion ac eglwysi heddiw ‘pa bethau newydd cyffrous rwyt ti am wneud yng Nghymru heddiw a pha ran sydd gen ti ni chwarae yn dy fenter fawr?’.